

# Papur briffio: Tlodi yng Nghymru 2020

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd i dlodi yng Nghymru cyn ac yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae ein dadansoddiad yn tanlinellu pwysigrwydd gwaith, nawdd cymdeithasol a chostau tai wrth ddatrys tlodi yng Nghymru, yn ogystal â'r graddau y mae argyfwng y coronafeirws wedi gwthio pobl i dlodi ac eraill yn ddyfnach i dlodi.

## Sefydliad Joseph Rowntree

### Beth sydd angen i chi ei wybod:

- Hyd yn oed cyn y coronafeirws, roedd bron i chwarter y bobl yng Nghymru mewn tlodi (700,000) yn byw bywydau ansicr ac ansefydlog. Roedd y risg i blant yn unig yn uwch gyda 3 o bob 10 plentyn yn byw mewn tlodi.
- Yng Nghymru mae cyflogau pobl yn is ym mhob sector nag yng ngweddill y DU. Ar ddechrau cyfnod y coronafeirws, cafodd mwy na thraean o'r swyddi eu rhoi ar ffyrlo ac mewn rhai ardaloedd lleol mae risg llawer uwch y bydd swyddi yn y cynllun ffyrlo'n cael eu colli eu yn gyfan gwbl, oherwydd y mathau o waith yn yr ardal. Mae angen targedu ac ysgogi swyddi mewn awdurdodau lleol sy'n wynebu'r risg fwyaf o golli nifer o swyddi, sy'n aml yn ardaloedd sydd eisoes yn ei chael yn anodd yn economaidd.
- I deuluoedd incwm isel, un ffactor o ran methu dianc rhag tlodi mewn gwaith yw'r angen i gydbwysu gwaith cyflogedig â gofalu am blant. Dywed dau o bob pum awdurdod lleol yng Nghymru nad oes digon o ofal plant i'r rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Mae cyflenwi gofal plant i blant o bob oed (nid oed meithrin yn unig), a bod hynny'n fforddiadwy, yn bwysig os yw merched am allu bod yn rhan lawn o'r gweithlu a symud allan o dlodi.
- Ni ddylid dibrisio pwysigrwydd mesurau nawdd cymdeithasol sy'n benodol i Gymru. Er bod system nawdd cymdeithasol y DU yn chwarae rhan bwysig wrth ddatrys tlodi, mae cynlluniau cymorth Cymru hefyd yn chwarae rhan hanfodol. Gyda nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi dyblu ers dechrau'r flwyddyn, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn dibynnu ar gymorth ychwanegol gan Gymru. Felly, mae'n bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu system fudd-daliadau glir, effeithiol a theg, sy'n ategu'r system nawdd cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yn y DU.
- Mae cadw'r cynnydd dros dro mewn lwfansau Credyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith, yn ogystal ag ymestyn hyn i fudd-daliadau etifeddol yn allweddol. Er enghraifft, o'r 180,000 o blant mewn tlodi, mae 140,000 yn byw mewn teuluoedd sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm.
- Mae cynnydd mewn rhenti yn y sector rhentu cymdeithasol wedi arwain at gynydd dramatig mewn tlodi yn y sector hwnnw, yn enwedig mewn aelwydydd sy'n gweithio, gan danseilio ei rôl o ran amddiffyn pobl mewn tlodi. Fel y mae pethau, bydd hon yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru gan fod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i renti gynyddu'n uwch na chwyddiant am bum mlynedd arall. Mae angen cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol hefyd.
- Mae'r sector rhentu preifat yn parhau i fod yn llai nag yng ngwledydd eraill y DU, fodd bynnag, mae dibynnu'n gynyddol ar renti preifat drud yn rhoi llawer o aelwydydd tlotach mewn risg ychwanegol o dlodi. Mae cyfraddau tlodi ymhlith rentwyr preifat yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU.
- Wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben ac wrth i ddiweithdra gynyddu, mae'r straen ar aelwydydd yn debygol o gynyddu. Daw'r bylchau yn y system fudd-daliadau'n fwyfwy amlwg i'r rhai sy'n cael trafferthion ariannol a gallai ôl-ddyledion rhent a biliau angenrheidiol eraill ddechrau codi. Mae angen gwaith i liniaru'r canlyniadau hirdymor posibl.

---

## Trosolwg o dlodi yng Nghymru


Dros y degawd diwethaf, prin fod cyfran gyffredinol y bobl mewn tlodi yng Nghymru wedi newid o un o bob pedwar, sy'n lefel annerbyniol. Mae hyn yn deillio'n rhannol o ddau duedd yn canslo ei gilydd: mae tlodi plant wedi bod ar i lawr o 33% yn 2009-12, i 28% yn 2015-18, tra bod tlodi pensiynewyr wedi codi o 14% yn 2009-12, i 19% yn 2015-18.

Mae union effaith coronafeirws yn ansicr, er ei bod yn amlwg y bydd wedi cael effaith ddramatig ar lefelau tlodi, gydag effeithiau mwy ar rai ohonom oedd eisoes yn cael trafferth byw o ddydd i ddydd. Gallwn eisoes weld gwahaniaethau mewn effeithiau economaidd sy'n gysylltiedig ag anfanteision presennol, gan arwain at gyfraddau tlodi uwch mewn ardaloedd tlotach, gyda phobl sy'n gweithio mewn rhai sectorau ar gyflogau isel yn debygol o gael eu taro'n waeth yn sgil colli swyddi.

Mae'r siart isod yn dangos sut mae lefelau tlodi yn amrywio yn ôl grwpiau. Mae'n bwysig hefyd meddwl am gyfansoddiad pwysydd mewn tlodi. Mae gan grwpiau a ddangosir gan fariau glas tywyll gyfradd tlodi uwch ond weithiau nid ydynt yn rhan o'r grŵp mwyaf mewn tlodi. Er enghraifft, gallwn weld bod gan bobl mewn teuluoedd un rhiant gyfradd tlodi uchel o dros 40%, ond mae'n cyfateb i tua wythfed ran o bawb sydd mewn tlodi oherwydd maint bach y grŵp yn y boblogaeth. Edrychwch ar Atodiad A i weld tabl sy'n dangos risg a chyfansoddiad tlodi yng Nghymru.

Ar draws statws gwaith, pobl sy'n byw ar aelwyd lle mae gweithiwr llawn amser sydd â'r gyfradd tlodi isaf, ar tua 16%, ond oherwydd bod gan 6 o bob 10 aelwyd yng Nghymru weithiwr llawn amser, mae'n dal yn wir fod gan 4 o bob 10 aelwyd mewn tlodi weithiwr llawn amser a bod gan dros hanner rywun mewn gwaith, sy'n dangos, er bod gwaith yn lleihau'r risg o dlodi, yn aml nid yw'n ddigon i rywun allu dianc rhag tlodi.

## Mae lefelau tlodi'n amrywio'n fawr yn ôl nodweddion



\* Yn seiliedig ar sampl bach

Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog

Gallwn gymharu'r grwpiau â'r cyfraddau tlodi uchaf â'r rhai y gwyddom sydd wedi dioddef fwyaf naill ai effaith iechyd neu economaidd yn sgil y coronafeirws. Gwyddom fod nifer yr achosion a'r canlyniadau iechyd yn waeth i lawer o grwpiau BAME, y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, ac i bobl mewn rhai sectorau cyflogaeth â chyflog isel, fel y mae lefelau tlodi. Ond weithiau mae'r berthynas yn llai uniongyrchol: gwelwn uchod fod pensiynwyr yn tueddu i fod â chyfradd tlodi is (er ei bod yn cynyddu) ond eu bod yn llawer mwy tebygol o ddioddef effaith iechyd fwy dwys oherwydd y coronafeirws. Yn yr un modd, diogelwyd unigolion a roddwyd ar ffyrlo rhag dal y feirws yn y gwaith, ond maent yn agored i'r ôl-effeithiau economaidd.

Yn y bôn, mae perthynas glir rhwng anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau incwm, gyda phobl ar aelwydydd tlotach yn tueddu i fod ag iechyd gwaeth, ac mae'r rheini ag iechyd gwaeth yn tueddu i fod ag incwm is. Mae hyn, ynghyd â'r hyn a wyddom am y grwpiau sydd wedi'u heffeithio waethaf, yn awgrymu mai'r aelwydydd tlotach fydd yn teimlo effeithiau iechyd ac economaidd fwyaf yn sgil y coronafeirws, ac er ein bod i gyd yn wynebu'r un argyfwng, bydd aelwydydd tlotach yn wynebu argyfwng llawer gwaeth.

Mae'r adrannau sy'n weddill yn edrych ar waith, nawdd cymdeithasol a thai yng Nghymru, gan ddechrau gyda'r sefyllfa cyn cyfnod y coronafeirws, ond yna, edrychir ar y data diweddaraf sydd ar gael i edrych ar y darlun presennol sy'n dod i'r amlwg.

## Gwaith a thlodi yng Nghymru


Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar swyddi a sicrwydd ariannol, gyda'r effaith fwyaf ar weithwyr ar gyflog isel neu mewn tlodi. Er nad wyddom hyd yma beth yw'r newidiadau llawn yn y farchnad lafur, mae'n bwysig deall ac asesu beth mae'r newidiadau cychwynnol hyn wedi'i olygu i weithwyr mewn tlodi, yn ogystal â'r farchnad lafur y maent yn ei hwynebu yn ystod y cyfnod adfer.

Mae'n hanfodol darlunio'r sefyllfa o ran tlodi a gwaith yng Nghymru cyn coronafeirws, gan fod rhai ffactorau sy'n effeithio ar allu unigolyn i ddianc rhag tlodi mewn gwaith wedi gwaethgu yn ystod y pandemig. Mae'n bwysig ystyried y ffactorau hyn yn briodol, megis tangyflogaeth, fel y gallwn drafod y camau polisi sydd eu hangen i helpu'r rhai sydd mewn tlodi ar hyn o bryd ac i atal llif cynyddol o dlodi mewn gwaith.

### Tlodi mewn gwaith cyn y coronafeirws

Mae tlodi mewn gwaith yng Nghymru (a ddiffinnir yma fel cyfran y gweithwyr sydd mewn tlodi) yn 14% ar gyfer 2016/17 i 2018/19. Fodd bynnag, o'i gymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill yn y DU, dyma un o'r cyfraddau uchaf o ran tlodi mewn gwaith, ar wahân i Lundain (17%). Gweithwyr yn y sectorau bwyd, cyfanwerthu a manwerthu oedd yn wynebu'r cyfraddau uchaf o ran tlodi mewn gwaith, yn ôl diwydiant.

### Mae cyfraddau tlodi mewn gwaith yn amrywio'n fawr yn ôl sector




Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ac Arolwg Adnoddau Teuluol.

Ffactor arall o dlodi mewn gwaith yw cyflog. Yn chwarter cyntaf 2020, Cymru oedd â'r cyflog canolrifol isaf fesul awr, o'i gymharu â phob gwlad a rhanbarth arall, sef £10.73. Ledled y DU, mae gweithwyr mewn lletygarwch a manwerthu ar gyflog is na sectorau eraill ac maent yn fwy tebygol o gael eu tangyflogi.

## 1. Tangyflogaeth

Mae ein gwaith blaenorol wedi tynnu sylw at y ffaith mai un ffactor pwysig sy'n sbarduno tlogi mewn gwaith yw nad yw gweithwyr yn gallu gweithio cymaint o oriau ag yr hoffent, cyfeirir at hyn fel tangyflogaeth. Mae tangyflogaeth yn broblem i weithwyr mewn tlogi, gan fod cyfyngu ar nifer yr oriau y gall unigolyn weithio yn cyfyngu ar ei ddewisiadau a'i incwm. Cyn y coronafeirws, roedd gan Gymru (10%) gyfradd tangyflogaeth debyg i wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio Gogledd Iwerddon (8%). Gall gweithio llai o oriau a bod ar gyflog isel hefyd ei gwneud yn anodd iawn dianc rhag tlogi mewn gwaith.

**Cyn y pandemig, roedd gan Gymru gyfradd tangyflogaeth debyg i Loegr a'r Alban. Fodd bynnag, ar adegau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi bod yn uwch nag ardaloedd eraill**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o'r Arolwg o'r Gweithlu

## 2. Rhyw, teuluoedd ac ethnigrwydd


Mae rhai grwpiau yn llawer llai tebygol o ddod o hyd i lwybr allan o dlogi nag eraill, yn enwedig merched, rhieni sengl a phobl o rai grwpiau BAME. Caiff merched eu gorgynrychioli yn y sector gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, yn ogystal â'r sector iechyd a gwaith cymdeithasol, lle mae cyfraddau tlogi yn uwch nag mewn llawer o sectorau lle cyflogir dynion yn bennaf. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o weithio ym maes lletygarwch a manwerthu, sydd â chyfraddau tlogi uwch. Er bod y gyfradd tlogi mewn gwaith ar gyfer rhieni sengl yng Nghymru (27%) yn is nag ar gyfer gweddill y DU am yr un cyfnod (30%), fel y DU, rhieni sengl sydd â'r gyfradd tlogi mewn gwaith uchaf o'i gymharu â phob math o aelwyd. Hefyd, fel y DU, mae rhieni sengl yn fwy tebygol o fod yn famau sengl.

Yn gyffredinol, mae tlogi'n uwch ymhlith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig grwpiau du ac Asiaidd. Mae cysylltiad rhannol rhwng hyn a lefelau cyflogaeth is ymhlith rhai o'r grwpiau hynny. Fodd bynnag, mae tlogi mewn gwaith hefyd yn uwch ymhlith

lleiafrifoedd du ac ethnig oherwydd bod cynifer ohonynt mewn sectorau â chyflog isel a swyddi â chyflogau is<sup>i</sup>.

Mae cysylltiad cryf hefyd rhwng ethnigrwydd a gwaith a chyflogau. Mae gan boblogaeth Pobl Dduon (56%) ac Asiaidd (62%) gyfraddau cyflogaeth is na'r boblogaeth Wyn (74%)<sup>ii</sup>. Y grŵp Gwyn Arall, sy'n cynnwys y rhai a anwyd yn Ewrop, sydd â'r cyfraddau cyflogaeth uchaf yng Nghymru, ar 80%<sup>iii</sup>. Mae'r grŵp Gwyn nad yw'n Brydeinig hefyd yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn safleoedd diwydiannol, lletygarwch, gofal cymdeithasol a safleoedd pecynnu bwyd<sup>iv</sup>, sydd â chyflogau is yn hanesyddol. Dangosir yr annhegwch hwn yn y farchnad lafur mewn cyfraddau tlodi cyffredinol uwch, ond hefyd cyfraddau tlodi mewn gwaith uwch ar gyfer gweithwyr o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

### Mae gan rieni sengl y cyfraddau tlodi mewn gwaith uchaf



Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ac Arolwg Adnoddau Teuluol.

I deuluoedd incwm isel, un ffactor o ran methu â dianc rhag tlodi mewn gwaith a/neu dangyflogaeth yw'r angen i gydbwyso gwaith cyflogedig â gofalu am blant, a'r gallu i ddod o hyd i ofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gwaith. Dylai rhieni allu dibynnu ar ddewisiadau gofal plant fforddiadwy, sy'n cyd-fynd â'u horiau, ond yn anffodus nid yw hyn yn wir am bob teulu. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant, yng Nghymru, y pris cyfartalog am le rhan-amser am ofal plant i blentyn o dan ddwy oed mewn meithrinfa yw £116.87, o'i gymharu â gwarchodwr plant sy'n costio £111.85<sup>v</sup>. Er bod hyn yn is na Lloegr (£134.65), gyda chynnydd bach ers 2019, mae hyn yn dal yn fwy nag y gall llawer o deuluoedd ar incwm isel ei fforddio.

Ar ôl i blant fynd i'r ysgol, mae cost gyfartalog gofal plant yn gostwng, ond gall barhau i fod yn fil swmpus i deuluoedd sy'n gweithio. Pris wythnosol clwb ar ôl ysgol i blant rhwng 5 ac 11 oed yw £61.16, y pris ar gyfer gwarchodwyr plant yw £70.02. I rai teuluoedd sydd mewn tlodi, bydd angen iddynt wneud dewis ynglŷn ag oriau gwaith a gofal plant oherwydd fforddiadwyedd. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, tra bod 58% o'r holl deuluoedd yn defnyddio gofal plant, mae'r rhan fwyaf o rieni'n defnyddio opsiynau gofal plant am ddim, naill ai gan deulu neu ffrindiau. Ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed, dim ond 38% o deuluoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol. Nid yn unig y mae cost gofal plant yn rhwystr i weithwyr, ond mae argaeledd gofal plant ar gyfer yr oriau/sifftiau sydd eu hangen yn her.

Mae awdurdodau lleol Cymru'n paratoi adroddiad sy'n nodi p'un ai a oes ganddynt ddigon o ofal plant yn eu hardal ar gyfer pob math o deuluoedd. Dywed 43 y cant o'r awdurdodau lleol nad oes digon o ofal plant ar gael i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. At hynny, mae argaeledd gofal plant yng Nghymru wedi lleihau ers 2019, yn enwedig i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg<sup>vi</sup>. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn gyfyngedig iawn, ac ar y mwyaf, mae'n cynnig tair awr y dydd. Mae nifer y plant sy'n gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi parhau i ostwng ym mhob ardal o 59% o awdurdodau lleol yn 2019, i 29% yn 2020<sup>vii</sup>. Yn adroddiad 2019, nododd Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant Coram fod y gofal plant sydd ar gael yn y rhaglen Dechrau'n Deg wedi gostwng y flwyddyn honno o 65% yn 2018<sup>viii</sup>. Fodd bynnag, nid yn rhaglen Dechrau'n Deg yn unig y gwelir y duedd hon. Mae argaeledd gofal plant i rieni plant o dan ddwy, tair a phedair oed sydd â hawl gyffredinol, a phlant anabl, wedi gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. I deuluoedd sy'n gweithio, mae argaeledd gofal plant sy'n cyfateb i oriau gwaith/sifftiau yn rhwystr amlwg i ddianc rhag tlodi mewn gwaith<sup>ix</sup>.

Mae gan Lywodraeth Cymru system sy'n cynnig cyllid ar gyfer 30 awr o ofal plant am ddim i blant tair i bedair oed. I fod yn gymwys, rhaid i riant weithio 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd ar isafswm cyflog. Mae llawer o deuluoedd mewn tlodi sydd mewn gwaith ond am lai o oriau na hyn yn anghymwys i dderbyn y gofal plant am ddim. Gallai hyn eu hatal rhag meithrin profiad a sgiliau i gael rhagor o waith. Mae'r hawl i gael 30 awr o ofal am ddim ar draws pob ardal leol wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda dim ond 23% o awdurdodau lleol yn nodi bod digon o ofal plant i blant sydd â hawl i'r 30 awr am ddim o gymharu â 33% yn 2019. Ar gyfer teuluoedd incwm isel, mae argaeledd gofal plant yn rhwystr pendant i ddianc rhag tlodi mewn gwaith.

### **Effaith y coronafeirws**

Ar ôl cyhoeddi'r cyfnod cyfyngiadau, caewyd pob siop nad oedd yn gwerthu nwyddau hanfodol a manau cyhoeddus eraill. Arweiniodd y cyfyngiad hwn at ostyngiad sylweddol mewn gweithgarwch economaidd, a gorchynnwyd llawer o bobl i aros gartref. Cyflwynodd Llywodraeth y DU bolisiau, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi (JRS) i gefnogi swyddi. Helpodd y JRS i ddiogelu swyddi ar ddechrau'r argyfwng, gan gynnwys y rhai yng Nghymru.

Ym mis Awst 2020, roedd 31% o swyddi cymwys yng Nghymru yn y cynllun ffyrlo, gyda 35% o swyddi ar ffyrlo yng Nghonwy a 36% yng Ngwynedd. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r diwydiannau a oedd fwyaf tebygol o gael eu cau'n llawn oherwydd natur y cyfyngiadau, gyda 77% yn sector y Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a gwasanaethau eraill ar ffyrlo, a 78% o'r gwasanaethau Llety a Bwyd ar ffyrlo. Mae hyn yn cyferbynnu â'r sector Cyllid ac Yswiriant ac Addysg a oedd â 7% o'r swyddi ar ffyrlo yng Nghymru.


Mae'n bwysig creu swyddi newydd fel bod y rhai sy'n colli eu swyddi yn cael cyfle i symud yn ôl i waith yn gyflym. Y mesur gorau i weld a oes digon o swyddi i'r rhai a ddiswyddwyd i symud iddynt yw nifer y bobl ddi-waith sy'n hawlio budd-daliadau o gymharu â nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Dengys dadansoddiad fod gan rai ardaloedd yng Nghymru niferoedd uchel iawn o bobl ddi-waith yn ymgeisio am bob swydd wag: Rhondda Cynon Taf (37 o ymgeiswyr am bob swydd wag) a Merthyr Tudful

(35 ymgeiswyr am bob swydd wag) yw'r ardaloedd gyda mwy na 30 o ymgeiswyr am bob swydd wag.

Mae rhai ardaloedd lleol yn wynebu risg llawer uwch nag eraill o bobl yn colli eu swyddi, oherwydd y mathau o waith yn yr ardal honno. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi llunio Mynegai Risg Swyddi Cyn Brechu i amcangyfrif yr effaith y gallai'r pandemig ei chael ar swyddi. Ar sail hyn, mae ymchwil wedi cyfrifo mai sectorau lle mae'n hawdd gweithio a chadw pellter cymdeithasol sy'n cael eu heffeithio leiaf, megis Adeiladu a Gweithgynhyrchu. Mae gan sectorau eraill, megis Llety, Bwyd a Diod a Masnach Manwerthu risg uchel o golli swyddi. Mae gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru gyfran uwch o lawer o weithwyr yn y diwydiannau hyn sydd mewn risg nag eraill.

Unwaith eto, mae Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn ardaloedd â risg uwch, ond felly hefyd Caerffili, Blaenau Gwent, a Sir y Fflint gyda dros 40% o swyddi yn y diwydiannau sydd mewn risg. At hynny, po leiaf y mae rhywun yn ei ennill, y mwyaf tebygol y byddant yn gweithio mewn swydd sydd mewn risg uchel. Mae gan sectorau Llety, Bwyd a Diod a Masnach Manwerthu gyfraddau tlodi mewn gwaith uwch na sectorau eraill ac mae'r cyfarwydydd i gadw at bellter cymdeithasol yn effeithio'n fawr ar y rhain; gweithwyr incwm isel sydd fwyaf tebygol o wynebu canlyniadau negyddol hyn.

### **Mae canrannau'r gweithwyr mewn diwydiannau sydd mewn risg yn amrywio'n fawr yn ôl awdurdod lleol**



Diffiniwyd diwydiannau sydd mewn risg fel y rhai â'r gyfran uchaf o swyddi mewn risg cyn dod o hyd i frechlyn<sup>x</sup>. Y rhain yw'r sector Llety a Bwyd, Masnach Manwerthu a gwasanaethau personol (fel siopau trin gwallt). Ffynhonnell: Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth 2018, Data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron 2020.



---

## Nawdd Cymdeithasol a thlodi yng Nghymru

Yng Nghymru, roedd tua 700,000 o bobl wedi'u cloi mewn tlodi cyn y coronafeirws, lefel sydd wedi parhau'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Ochr yn ochr â hyn, mae tlodi ymhlith plant yn arbennig wedi parhau'n broblem. Er ei fod wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r lefel yn parhau'n annerbyniol o uchel, gyda thri o bob deg yn byw mewn tlodi – tua 180,000 o blant.

Un o rolau'r system nawdd cymdeithasol yw darparu cymorth hanfodol i gefnogi'r rheini sy'n cael trafferthion ariannol. Yng Nghymru, mae mwy na dau o bob deg o oedolion o oedran gweithio yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm. Er gwaethaf y cymorth hanfodol hwn, mae cyfraddau tlodi ymhlith y rhai sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm yng Nghymru yn 45%, tri deg pwynt canran yn uwch na'r rhai nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm. Ymhlith plant sy'n byw o fewn teulu sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, mae ychydig o dan hanner yn byw mewn tlodi - tua 140,000 o blant. Hynny yw, o blith y plant sy'n byw mewn tlodi, mae dros saith o bob deg yn byw mewn teulu sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm. Yn amlwg, i lawer, nid yw nawdd cymdeithasol yn darparu'r cymorth ariannol sydd ei angen i'w hatal rhag cael eu cloi mewn tlodi.

Yng Nghymru, llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weinyddu nawdd cymdeithasol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhai pwerau datganoledig ar gael drwy nifer fach o grantiau a lwfansau i deuluoedd incwm isel, sy'n dod i gyfanswm gwariant blynyddol o dros £400 miliwn, lefel sy'n cyfateb i gyfanswm y gwariant yng Nghymru ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Cynhwysol gyda'i gilydd. Y mwyaf o'r cynlluniau hyn yw Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), a ddisodlodd gynllun Budd-dal y Dreth Gyngor ar 1 Ebrill 2013. Ers hynny, bu gostyngiad cyson yn nifer yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn Mil eu Treth Cyngor, roedd tua 275,000 o aelwydydd wedi cael gostyngiad erbyn 2019/20, o'i gymharu â 317,000 o aelwydydd yn 2013/14. Er bod y rhesymau dros y gostyngiad mewn hawl wyr yn amrywio, ceir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod y ffaith bod hawl wyr budd-daliadau gysylltiedig ag incwm bellach yn hawlio Credyd Cynhwysol, ac na wneir asesiad awtomatig ar gyfer cymhwysedd CTRS, wedi arwain at lawer o aelwydydd yn gadael y CTRS oherwydd diffyg dealltwriaeth o sut mae'r system yn gweithio.

Mae darparu Prydau Ysgol am Ddim hefyd yn bolisi pwysig i Lywodraeth Cymru, gydag ychydig o dan un o bob pum disgybl (dros 85,000) yn gymwys yn 2019/20. Un broblem barhaus yw bod y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim o blith y rhai sy'n gymwys wedi bod yn gymharol isel yn hanesyddol, gydag ychydig o dan wyth o bob deg o'r rhai sy'n gymwys (tua 65,000) yn cael prydau ysgol am ddim yn 2019/20.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn darparu grantiau nad oes angen eu talu'n ôl menw cyfnodau o argyfwng i'r rhai ar incwm isel. Yn wreiddiol fe'i cynlluniwyd i ddarparu cymorth pan fetho popeth arall, ond dibynnir fwyfwy ar y DAF i ddarparu cymorth yn y tymor hir ac mae wedi dod yn fwy amlwg ers ei gyflwyno.



naill ai wedi gorfod torri oriau neu eu rhoi ar ffyrlo geisio gwneud iawn am y diffyg ariannol.

Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu a ddylid cadw neu dorri'r cymorth hanfodol o £20 ychwanegol yr wythnos mewn Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith o fis Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r codiad dros dro hwn wedi cadw llawer o deuluoedd rhag methau ag ymdopi yn ystod argyfwng y coronafeirws. Mae'r rhai sydd ar fudd-daliadau etifeddol - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith - eisoes wedi'u gadael ar ôl yn y pandemig hwn heb y cymorth ariannol hanfodol hwn. Dylid rhoi'r cymorth hanfodol hwn iddyn nhw hefyd.

Mewn ymateb i'r coronafeirws, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i ddarparu amrywiaeth o gymorth i'r rhai yr oedd ei angen. Ar 30 Awst 2020, darparwyd £2.8 miliwn arall o gyllid i gefnogi'r galw cynyddol ar y CTRS ers dechrau cyfnod y coronafeirws, tua 10% o gyfanswm cyllideb 2019/20 ar gyfer y cynllun. Er bod hyn i'w groesawu, nid yw'n glir eto beth oedd y gyfran a fanteisiodd arno o blith y rhai a oedd yn gymwys, yn enwedig gyda'r diffyg cysylltiad rhwng Credyd Cynhwysol a'r CTRS.

Ers dechrau pandemig y coronafeirws, bu cynnydd sylweddol yn nifer dyfarniadau'r Gronfa Cymorth Dewisol, y mwyafrif ohonynt o ganlyniad i effaith coronafeirws. Rhwng 18 Mawrth a 3 Medi, gwnaed dros 60,000 o daliadau cysylltiedig â COVID-19, gyda chyfanswm gwerth £4.1 miliwn<sup>xi</sup>. Mae hyn yn cynrychioli bron i draean o'r holl wariant ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2019/20 ac mae'n dangos yr angen dybryd am gymorth wrth i bobl gael eu hunain mewn argyfwng.

### **Bu cynnydd sylweddol yn nifer dyfarniadau'r Gronfa Cymorth Dewisol ers dechrau cyfnod y coronafeirws**



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru.

Mae awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn cefnogi nifer cynyddol o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r coronafeirws, gan hefyd addasu trefniadau ar gyfer darpariaeth yn ystod y pandemig. Erbyn diwedd mis Mai, roedd 5,000 o ddisgyblion ychwanegol yn gymwys ers dechrau'r cyfyngiadau<sup>ix</sup>, ac ar 22 Ebrill, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sicrhau cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim drwy gydol gwyliau'r haf, gyda £33 miliwn ychwanegol ar gael, yn fwy na'r amcangyfrif o £29 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2019/20. Ym mis Hydref, roedd £11 miliwn [www.jrf.org.uk](http://www.jrf.org.uk)

---

pellach ar gael i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod pob gwyliau ysgol hyd at a gan gynnwys y Pasg 2021. Mae'r gwariant ychwanegol hwn yn ystod y pandemig a thu hwnt yn dangos ymrwymiad pendant gan Lywodraeth Cymru i geisio lliniaru rhai o effeithiau effaith ariannol COVID-19 a deimlir gan blant.

Yn ogystal â'r arian ychwanegol a amlinellir uchod, roedd parseli bwyd ar gael tan 16 Awst i helpu'r rhai a oedd yn agored iawn i haint ac felly'n 'hunanyysu'. Erbyn i'r cynllun ddod i ben, roedd dros 200,000 o barseli wedi'u dosbarthu'n wythnosol, gan ddarparu cymorth yr oedd mawr ei angen.

Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn ystod cyfnod y coronafeirws oedd parodrwydd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio eu pwerau datganoledig i liniaru'r caledi ariannol yr oedd llawer yn ei brofi. Yr hyn nad yw'n amlwg eto yw a yw lefel cyllid sydd ar gael yn cyfateb i'r galw am y cynlluniau hyn, yn union ar ôl cyfnod y coronafeirws a thu hwnt i'r cyfnod adfer. Mae'r coronafeirws hefyd wedi tynnu sylw amlwg at ddiffygion presennol y pwerau datganoledig hyn. Mae'r system yn dameidiog ar hyn o bryd, gyda darpar hawlwr yn gorfod gwneud nifer o geisiadau. Mae'r cymorth sydd ar gael yn aml yn annigonol i godi pobl allan o dlodi, a gall meini prawf cymhwysedd cymhleth atal pobl rhag hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Ac eto, does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Bu galw am sefydlu system fudd-daliadau i Gymru sy'n gydlynol, yn effeithiol ac yn deg, ac sy'n ategu'r system nawdd cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yn y DU. Mae'r cyfnod wrth i ni ddod allan o bandemig y coronafeirws yn gyfle gwirioneddol i sbarduno'r alwad hon am newid yn ei blaen, gan arwain at gynllun sy'n helpu pobl yn fwy effeithiol i dorri'n rhydd o dlodi.

## Tai a thlodi yng Nghymru

Nodweddir y sefyllfa dai yng Nghymru yn hanesyddol gan lefelau uchel o berchentyaeth, sydd wedi helpu i gadw costau tai ar gyfartaledd yn is yng Nghymru na rhai rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, fel gweddill y DU, mae'r ddau ddegawd diwethaf wedi gweld sefyllfa tai Cymru yn dechrau newid wrth i fwy o aelwydydd droi at y sector rhentu preifat gan fod prisiau tai'n codi'n gynyddol a phrinder tai cymdeithasol.

Mae'r Sector Rhentu Preifat wedi tyfu'n raddol yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf o 7% o'r holl aelwydydd yn 2001 i 14% yn 2019, er bod cyfradd twf y sector wedi arafu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn y cyfamser, bu gostyngiad o ran perchentyaeth o 76% i 70% dros yr un cyfnod wrth i lai a llai o aelwydydd allu ymuno â'r farchnad dai. Mae Sector Rhentu Preifat Cymru yn parhau i fod yn llai nag yng ngwledydd eraill y DU ac mae cyfraddau perchentyaeth wedi aros yn uchel, ond mae dibynnu'n gynyddol ar renti preifat drud yn golygu bod llawer o aelwydydd tlotach mewn perygl ychwanegol o dlodi, yn rhannol oherwydd bod enillion cyfartalog yn gostwng ymhell islaw cyfartaledd y DU.

Mae twf araf mewn rhenti dros y degawd diwethaf wedi helpu llawer o rentwyr preifat yng Nghymru i osgoi cael eu gwthio i dlodi, gan fod cynnydd mewn rhenti yn gyson is na chwyddiant. Gwelodd aelwydydd ostyngiad mewn termau real o 2% mewn costau tai rhwng 2009-12 a 2016-19. Helpodd hyn i ostwng cyfradd tlodi, o 44% yn 2012-15 i 41% yn 2016-19, ond mae fforddiadwyedd yn y Sector Rhentu Preifat yng Nghymru yn parhau i fod yn broblem i lawer o aelwydydd ac mae cyfraddau tlodi ymhlith rhentwyr

---

preifat yn parhau'n uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. O 2016-19, dim ond yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr (45%) y ceir cyfran uwch o rentwyr preifat mewn tlodi.


Mae materion fforddiadwyedd yn effeithio'n anghymesur ar rentwyr yng Nghaerdydd. Yno mae'r rhenti preifat drutaf a mwyaf cyffredin. I weithiwr yn chwarter isaf yr enillion yng Nghaerdydd, mae'r rhent ar eiddo dwy ystafell wely yn chwarter isaf rhenti'r farchnad yng Nghaerdydd yn costio tua 35% o enillion. Ym Mlaenau Gwent, costiodd eiddo cyfatebol tua 21% o enillion. Er nad oes diffiniad y cytunir arno ar gyfer fforddiadwyedd, mae Sefydliad Joseph Rowntree o'r farn, os yw aelwydydd incwm is yn gwario mwy na 30% o'u hincwm ar rent, eu bod mewn perygl o orfod torri'n ôl ar hanfodion, ac mae hyn yn rhoi pobl mewn risg ychwanegol pe bai sioc ariannol.

Mae'r gyfradd tlodi yn y sector rhentu cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn llawer uwch na gweddill y DU. Yn 2016-19, roedd 49% o aelwydydd rhentu cymdeithasol mewn tlodi - dim ond Llundain oedd â chyfran uwch o rentwyr tai cymdeithasol mewn tlodi - ac mae hyn wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o hyn yn ymwneud â thwf araf mewn incwm dros y pum mlynedd diwethaf, gydag incwm cyfartalog rentwyr tai cymdeithasol Cyn Costau Tai yn codi 2.6% yn unig dros y pum mlynedd (o'i gymharu â 3.6% yn Llundain, 4.9% yn yr Alban, 4.7% yn Lloegr ac eithrio Llundain, ac 8.5% yng Ngogledd Iwerddon).

Er bod y rhai sy'n rhentu tai cymdeithasol yng Nghymru yn tueddu i dalu llai mewn rhent na rentwyr tai cymdeithasol yn Lloegr, maent wedi gweld cynnydd sylweddol mewn rhenti yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhenti cymdeithasol yn Lloegr wedi gostwng ers 2015/16, ond caniatodd Llywodraeth Cymru i renti gynyddu yn ôl chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 1.5% ynghyd â £2 ychwanegol yr wythnos, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn termau real o 8% mewn rhenti cymdeithasol dros y pum mlynedd diwethaf. Wrth i renti cymdeithasol godi'n uwch nag incwm, tynnwyd 40,000 o rentwyr tai cymdeithasol eraill i dlodi.

I rai sy'n rhentu tai cymdeithasol, caiff effeithiau ariannol codiadau rhent eu cydbwysu gan gynnydd mewn budd-dal tai, ond yn achos rentwyr tai cymdeithasol sy'n gweithio nid yw hyn yn wir bob amser, ac yn aml mae angen i aelwydydd ddod o hyd i'r arian i dalu'r gost ychwanegol drwy enillion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd dramatig mewn tlodi mewn gwaith i rentwyr tai cymdeithasol, gan gynyddu o 29% yn 2012-15 i 39% yn 2016-19. Y cynnydd hwn mewn tlodi mewn gwaith sydd i gyfrif am wthio tua 25,000 o rentwyr tai cymdeithasol i dlodi dros y pum mlynedd diwethaf. Fel y mae pethau, bydd y mater hwn yn parhau i achosi problem yng Nghymru gan fod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i renti gynyddu'n uwch na chwyddiant am bum mlynedd arall.

**Mae tlodi ymhlith rhentwyr tai cymdeithasol sy'n gweithio wedi codi'n gyflymach yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU wrth i renti cymdeithasol Cymru gynyddu.**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog.

Bwriedir i gartrefi rhent cymdeithasol fod yn gymorth hanfodol i'r rhai y mae angen cymorth tai arnynt fwyaf, felly byddai disgwyl cyfraddau tlodi uwch yn y sector hwnnw o gymharu â pherchnogion tai, yn arbennig. Fodd bynnag, mae'r cynnydd sydyn diweddar mewn tlodi yn y sector rhentu cymdeithasol yn peri pryder, fel y mae'r nifer cynyddol o deuluoedd incwm isel sy'n cael eu gwthio i'r sector rhentu preifat lle mae rhenti'n tueddu i fod yn uwch a'r amodau'n aml yn waeth. Mae cyflenwad addas o dai fforddiadwy a rhenti cymdeithasol yn ffordd bwysig o leihau'r pwysau ar y rheini sy'n cael y trafferthion mwyaf gyda'u costau tai.


Cydnabuwyd hyn i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, a oedd eisoes wedi ymrwymo i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod eu tymor mewn llywodraeth rhwng 2016 a 2021<sup>xi</sup>. Hyd yma, maent wedi gallu cadw at yr ymrwymiad hwn, ac mae'r Llywodraeth ar y trywydd iawn i ddarparu'r tai fforddiadwy a addawyd erbyn 2021. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y targed hwn yn cynnwys cartrefi Cymorth i Brynu na fydd llawer o aelwydydd incwm isel yn gallu fforddio eu prynu. Wrth i ni wynebu'r argyfwng, bydd cyflenwad digonol o dai cymdeithasol wedi helpu llawer o deuluoedd incwm isel i oroesi'r storm, gan y byddent wedi gallu cael tai fforddiadwy a diogel, yn hytrach na rhenti preifat drud ac ansicr. Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cynnal y lefel hon o adeiladu cartrefi fforddiadwy, gan hefyd osod targedau mwy heriol ar gyfer cartrefi sy'n cael eu hadeiladu'n benodol ar gyfer rhentu cymdeithasol, er mwyn darparu deiliadaeth ddiogel a fforddiadwy i deuluoedd incwm isel drwy Gymru.

## Effaith y coronafeirws

Er bod cyfraddau uchel o berchentyaeth a chostau tai isel yn debygol o fod yn ffactor amddiffynnol i lawer o aelwydydd yng Nghymru, roedd y sefyllfa ansicr y cafodd llawer o rentwyr preifat a chymdeithasol eu hunain ynddi cyn yr argyfwng yn golygu bod llawer yn ei chael yn anodd talu eu costau byw ar ôl i'w hincwm ostwng. Gyda bron i draean o weithwyr Cymru ar ffyrlo yn ystod ton gyntaf y coronafeirws - a llawer mwy yn wynebu torri ar eu horiau neu ddiswyddiadau – roedd llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

Erbyn mis Mehefin 2020, tua 400,000 o oedolion (16%) yng Nghymru ar ei hôl hi o ran talu o leiaf un bil, a 200,000 (8%) ar ei hôl hi o ran talu eu rhent neu eu taliadau morgais. Roedd cyfran yr oedolion ag ôl-ddyledion yn uwch yng Nghymru na llawer o'r DU, gyda dim ond Llundain yn wynebu lefelau tebyg o ôl-ddyledion. Fodd bynnag, teuluoedd ag ôl-ddyledion sy'n cynrychioli'r achosion mwyaf difrifol o anawsterau ariannol. Y tu hwnt i hyn, roedd llawer o deuluoedd (yn enwedig rhentwyr) yn llwyddo i ddal ati i dalu eu biliau ond yn cael trafferth yn ariannol.

## Mae canran yr oedolion ag ôl-ddyledion yng Nghymru yn uwch na mewn rhannau eraill o'r DU (ac eithrio Llundain)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Joseph Rowntree o Ddeall tonnau COVID Cymdeithasol (Ton 2).

Erbyn mis Gorffennaf, dim ond 58% o rentwyr tai cymdeithasol a ddywedodd eu bod yn dal i fyny â thaliadau rhent heb unrhyw anawsterau. Roedd rhentwyr preifat hefyd yn wynebu anawsterau, er bod yr effeithiau cynnar i'w gweld yn llai amlwg. Ymhlith rhentwyr preifat, dywedodd 72% eu bod yn gallu dal i fyny â thaliadau rhent heb drafferth. Yn groes i hyn, roedd 87% o'r holl ddeiliaid morgais yn gallu dal i fyny â'u taliadau morgais heb drafferth, a dim ond 2% o ddeiliaid morgais oedd ar ei hôl hi o ran taliadau.

Er mwyn helpu rhentwyr i gael dau ben llinyn ynghyd yn ystod yr argyfwng, cynyddodd Llywodraeth y DU y lwfans tai lleol (cyfradd y Budd-dal Tai a delir i bobl yn y sector rhentu preifat) i'r 30ain cyfres o ffigurau canraddol o renti mewn ardal. Bydd y newid hwn wedi rhoi hwb y mae mawr ei angen i hawlwr budd-dal tai yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf ar Gredyd Cynhwysol yn dangos bod 270,000 o aelwydydd yng

---

Nghymru ym mis Mai 2020 wedi hawlio rhyw fath o fudd-dal tai, sy'n cynrychioli un o bob pump (20%) o aelwydydd yn y wlad. Rhwng mis Chwefror a mis Mai, roedd 20,000 o aelwydydd ychwanegol yn hawlio budd-dal tai yng Nghymru – cynnydd o 9%.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn dal i adael bylchau rhwng rhent ac incwm i unrhyw deulu sy'n rhentu eiddo sy'n uwch na'r 30ain cyfres o ffigurau canraddol o renti ac sy'n wynebu caledi ariannol. I'r rhai sy'n byw mewn eiddo dwy ystafell wely â canolrif pris rhentu preifat yng Ngwynedd (o fewn Ardal Marchnad Rhentu Eang De Gwynedd), gallai'r gwahaniaeth hwn gyfateb i ddiffyg o £25 yr wythnos. Mewn pedwar Awdurdod Lleol ledled Cymru, mae'r diffyg dros £15 yr wythnos, a allai olygu bod angen i deuluoedd ddod o hyd i £390 yn ychwanegol dros gyfnod o chwe mis i dalu eu costau tai.

Mae effaith y codiadau hyn mewn budd-dal tai hefyd yn aml yn cael ei dadwneud gan bolisiâu megis y cap ar fudd-daliadau, sy'n cyfyngu ar y codiadau hyn i'r rheini ohonom sydd â'r angen mwyaf. Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-dal tai sy'n dod o dan y cap ar fudd-daliadau ym mis Mai 2020 yn dal yn is yng Nghymru (2%) nag yn Lloegr (3%), ond mae'n parhau'n uwch nag yn yr Alban (1.2%) ac mae wedi cynyddu ers dechrau'r argyfwng gyda 2,000 o aelwydydd ychwanegol yn dod o dan y cap rhwng mis Chwefror a mis Mai 2020.

Mae'r ganran fwyaf o'r aelwydydd hyn sydd wedi'u capio yng Nghaerdydd lle mae'r prisiau rhent uchaf. Ym mis Mai 2020, cafodd 3.4% o'r holl aelwydydd a oedd yn hawlio budd-dal tai yng Nghaerdydd eu capio ac roeddent yn wynebu didyniad o £58 yr wythnos ar gyfartaledd o ran incwm budd-daliadau. Mae'r cap hefyd yn taro ar aelwydydd un rhiant yn anghymesur. Ym mis Mai 2020, cafodd incwm budd-daliadau 6.4% o'r holl aelwydydd un rhiant yng Nghaerdydd ei gapio gan y polisi.

Er mwyn helpu i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda'u costau tai, gall awdurdodau lleol yng Nghymru ddefnyddio Taliad Disgresiwn at Gostau Tai i wneud iawn am unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, rhaid gwneud cais am y taliadau hyn ar wahân i'r cais am Gredyd Cynhwysol, ac mae'r nifer sy'n manteisio ar y taliadau ar gyfer y rhai sydd ei angen yn aml yn isel. Dangosodd ymchwil gan Park (2019) fod gan y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai nifer o broblemau o ran argaeledd, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth o'r taliad ymhlith y rhai a allai fod yn gymwys a'r ffaith bod y broses ymgeisio'n amrywio o gyngor i gyngor.

Mae gan Gymru hefyd lawer llai o gyllid Taliad Disgresiwn at Gostau Tai na'r Alban, lle mae'r taliad wedi'i ddatganoli. Yn 2019-20, dim ond wythfed o'r swm a dalwyd yn yr Alban (£66 miliwn) a dalwyd mewn Taliad Disgresiwn at Gostau Tai (£8.5 miliwn) yng Nghymru, tra bod y boblogaeth yng Nghymru yn fwy na hanner poblogaeth yr Alban, sy'n golygu, fesul pen o'r boblogaeth, bod y swm yn llai na chwarter y swm yn yr Alban. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol Cymru mewn sefyllfa lawer gwaeth i gau'r bylchau o ran Credyd Cynhwysol na'r rhai yn yr Alban. Mae gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn o ychwanegu at y swm sydd ar gael i awdurdodau lleol, ond dim ond hyd at y cap, tra bod gan Lywodraeth yr Alban reolaeth lawn dros wariant y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai. Mae hyn wedi galluogi Llywodraeth yr Alban i liniaru effaith rhai polisiâu'r DU yn llawn (er enghraifft y dreth ystafell wely) tra bod Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn methu â llenwi'r bylchau. Hefyd, er bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud defnydd llawn o ychwanegu arian ychwanegol at y gronfa Taliad Disgresiwn at

www.jrf.org.uk



---

Gostau Tai, mae ymchwil gan Shelter Cymru wedi dangos nad yw rhai cynghorau wedi defnyddio'r arian ychwanegol, tra bod eraill wedi tanwario<sup>xii</sup>, ac o ganlyniad, cafodd arian y gellid bod wedi'i ddefnyddio i liniaru trafferthion ariannol i aelwydydd sy'n ei chael yn anodd gael ei roi'n ôl i Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth ochr yn ochr â'r Taliad Disgresiwn at Gostau Tai, lle gall rhentwyr ag ôl-ddyledion fenthyca gan Lywodraeth Cymru i dalu ôl-ddyledion a thalu'r benthyciad yn ôl dros amser. Fodd bynnag, er y gallai hyn arbed llawer o rentwyr rhag cael eu troi allan ar unwaith, nid yw'n ysgafnhau'r baich o ddyledion cynyddol i'r rhai sydd ag ôl-ddyledion. Nid yw defnyddio'r cynllun benthycia ychwaith yn gwarantu na chaiff tenant ei droi allan, gan fod landlordiaid yn dal i allu dechrau'r broses troi allan drwy adran 21 ar ôl i'r benthyciad ddod i law. O ganlyniad, efallai mai dim ond gohirio tlodi, dyled ddifrifol a throi allan a wna'r cynllun.

Wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben ac wrth i ddiweithdra godi, mae'r straen ar aelwydydd yn debygol o gynyddu. Bydd y bylchau yn y system fudd-daliadau yn dod yn fwyfwy amlwg i'r rhai sy'n cael trafferth yn ariannol a gall ôl-ddyledion mewn taliadau tai ddechrau cynyddu. Er mwyn diogelu rhentwyr rhag cael eu troi allan ar unwaith, mae cyfnodau rhybudd wedi'u hymestyn i chwe mis, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd hyn yn parhau tan 31 Mawrth 2021. Mae hwn yn gam pwysig tuag at ddarparu rhywfaint o sicrwydd i rentwyr, ond o ystyried y lefelau presennol o ôl-ddyledion rhent yng Nghymru, gallai'r broses o droi allan ddechrau cynyddu yn y dyfodol agos.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau breision i atal digartrefedd ac mae eu camau gweithredu i letya'r rhai sy'n cysgu allan wedi bod yn arbennig o gadarnhaol. Ym mis Awst, cadarnhawyd bod £40 miliwn ychwanegol wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol weithio ar atebion hirdymor ar gyfer digartrefedd gyda'r nod o sicrhau bod gan bawb a gafodd lety brys yn ystod y pandemig lwybr at dai parhaol<sup>xiii</sup>. Mae uchelgais y Llywodraeth yma i'w ganmol yn fawr, ond mae hefyd yn eithriadol o bwysig bod sefyllfa'r rheini sy'n cael trafferth gyda'u costau tai dros y misoedd nesaf yn cael ei monitro'n ofalus, fel y gallant weithredu lle bo angen i gadw rhentwyr yn eu cartrefi ac osgoi ton o ddigartrefedd newydd cyn iddo ddigwydd.

Yn ogystal â brwydrau rhentwyr tai cymdeithasol a phreifat, gall deiliaid morgaeisi sy'n colli gwaith weld y pwysau ariannol yn codi yn ystod y misoedd nesaf. Ym mis Gorffennaf 2020, roedd yn bosibl i 11% o ddeiliaid morgaeisi yng Nghymru ohirio talu eu morgais i'w benthyciwr. Pan ddaw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am ohirio i ben ar 31 Hydref, efallai y bydd rhai aelwydydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r arian i dalu'r costau hyn, ac wynebu'r risg o fynd i ôl-ddyledion ac wynebu cael eu troi allan yn y dyfodol agos.

## Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos, hyd yn oed cyn y coronafeirws, fod bron i chwarter y bobl yng Nghymru mewn tlodi, yn byw bywydau ansicr ac ansefydlog. Mewn llawer o achosion, bydd y coronafeirws wedi eu gwthio'n ddyfnach i dlodi, yn ogystal ag achosi i eraill fethu ag ymdopi. Ni fydd llawer ohonynt wedi profi'r sefyllfa hon o'r blaen.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymateb gyda rhai camau mentrus a thosturiol, ond mae gormod o'r rhain yn rhai dros dro. Yr hyn sy'n amlwg yw bod y cynlluniau ffyrlo a'r cynnydd dros dro mewn budd-daliadau yn cael eu tynnu'n ôl, bydd tlodi'n uwch. Ond mae llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi ardaloedd a phobl sy'n cael eu taro galetaf gan dlodi neu'r coronafeirws, yn ogystal â symbylu camau gweithredu gan gyflogwyr, darparwyr tai a gwasanaethau cyhoeddus lleol. Drwy wneud hynny, gallwn adeiladu ar sut yr ydym wedi ymateb fel cymdeithas i wynebu heriau'r coronafeirws. Mae'n briodol ac yn angenrheidiol gwneud yr un peth yn awr i sicrhau bod lefelau tlodi'n dechrau gostwng, a bod y rhai sydd ar incwm isel, sy'n cael eu heffeithio waethaf gan argyfwng economaidd coronafeirws, yn gweld eu bywydau'n gwella drwy gael cymorth hanfodol.

O ran gweithredu gan Lywodraeth y DU, mewn cyfnod pan fo arnom angen sicrwydd a sefydlogrwydd, yn wyneb ton o ddiweithdra, cyfyngiadau a chaledi, mae cadw'r codiad o £20 i Gredyd Cynhwysol a Chredydau Treth Gwaith a'i ymestyn i deuluoedd ar fudd-daliadau etifeddol yn hollbwysig. Bydd cadw'r cymorth hanfodol yn golygu bod llawer o deuluoedd yn gallu cael dau ben llinyn ynghyd; bydd ei ddileu'n golygu y bydd llawer o deuluoedd methu ag ymdopi. Dylai Llywodraeth y DU barhau i ddangos tosturi a chymryd camau beiddgar i gryfhau nawdd cymdeithasol a chefnogi ein cymdeithas.

Mae camau penodol yr ydym yn cynghori Llywodraeth Cymru i'w cymryd i helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwaith, nawdd cymdeithasol a thai:

- Datblygu cynnig gofal plant newydd yn seiliedig ar ddarpariaeth ddi-dor i blant o bob oed. Rydym yn cynnig y dylai'r cynnig gofal plant newydd hwn gynnwys: darpariaeth graidd o ofal plant rhan-amser ac addysg blynyddoedd cynnar am ddim i blant cyn oed ysgol, waeth beth fo statws gwaith y rhieni (gydag oriau ychwanegol ar gael ar raddfa ffioedd symudol); edrych ar opsiynau i gynyddu darpariaeth gofal plant fforddiadwy cyn ysgol, ar ôl ysgol a gofal plant yn ystod gwyliau i blant o oedran ysgol i 14 oed, fel y rhai a gynigir gan Sefydliad Bevan<sup>xiv</sup>.
- Canolbwyntio ei strategaethau economaidd ar greu a chadw swyddi yn ardaloedd Cymru lle mae'r economïau lleol gwannaf a'r rhai sy'n cael eu taro waethaf gan y pandemig, gan gynnwys cymoedd y de a'r Gymru wledig.
- Mynd ati'n weithgar i ystyried rhinweddau cynigion Sefydliad Bevan<sup>xv</sup> i wella a dwyn ynghyd y grantiau a'r lwfansau datganoledig presennol mewn 'System Fudd-daliadau Cymru' gydlynol ac effeithiol. Gellid sefydlu hyn yn bennaf o fewn y pwerau sydd eisoes wedi'u datganoli i Senedd Cymru a byddai'n ategu system nawdd cymdeithasol y DU. Byddai'n cynnig gwasanaethau arian parod neu wasanaethau mewn da sy'n cyrraedd y bobl sydd eu hangen, byddai'r gwasanaethau'n hawdd cael gafael arnynt, yn cael eu gweinyddu'n effeithlon ac yn gyson ac, yn hollbwysig, yn gwella bywydau pobl drwy eu helpu i ddianc rhag gafael tlodi.
- Adeiladu 20,000 o gartrefi fydd ar gael i'w rhentu'n gymdeithasol yn ystod ei dymor o bum mlynedd.
- Sicrhau bod rhenti cymdeithasol yn fforddiadwy drwy sicrhau nad yw rhenti'n fwy na chyflogau na budd-daliadau.

**Atodiad A: Cyfraddau tlodi a chyfansoddiad y rhai sydd mewn tlodi ac yng Nghymru yn gyffredinol, 2016/17 to 2018/19**

Grŵp	Cyfradd tlodi (Canran y grŵp mewn tlodi)	Cyfansoddiad tlodi (Canran y bobl mewn tlodi mewn grŵp)	Cyfansoddiad y boblogaeth (Canran yr holl bobl mewn grŵp)
Plant	28.5	25.5	20.4
Oedran gweithio	22.2	57.4	58.9
Pensiynwyr	18.9	17.1	20.7
<b>MATH O DEULU</b>			
Di-waith	58.3	26.7	10.5
Gwaith rhan-amser yn unig	26.6	11.0	9.4
Rhywun mewn gwaith llawn amser	15.7	41.4	59.9
Di-waith dros 60 / Wedi ymddeol	23.4	20.8	20.3
<b>Unig riant</b>			
Sengl heb blant	42.8	13.1	7.0
Pâr gyda phlant	28.0	20.9	17.1
Pâr heb blant	22.9	34.1	33.9
Un pensiywr	15.1	13.0	19.6
Pâr o bensiynwyr	22.2	7.6	7.8
<b>Anabledd yn y teulu</b>			
Dim anabledd yn y teulu	17.7	11.3	14.5
<b>Anabledd yn y teulu</b>			
Tri neu fwy o blant	27.2	46.6	39.0
Un neu ddau o blant	20.0	53.4	61.0
<b>Dim blant</b>			
Tri neu fwy o blant	44.0	17.7	8.9
Un neu ddau o blant	21.4	30.1	32.8
Dim blant	20.3	52.3	58.3
<b>MATH O AELWYD</b>			
Rhent cymdeithasol	48.8	34.6	16.0
Rhent preifat	41.4	27.2	15.0
Yn berchen gyda morgais	10.5	16.5	36.0
Yn berchen yn llwyr	15.1	21.7	33.0
<b>GRWP ETHNIG Y PENTEULU</b>			
Heb fod yn wyn*	24.5	2.3	2.1
Gwyn	22.7	97.7	97.9
<b>CYFANSWM AR GYFER CYMRU</b>	<b>22.8</b>	<b>100.0</b>	<b>100.0</b>

## Nodiadau

- <sup>i</sup> Llywodraeth y DU (2020) Ethnicity facts and figures. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area><https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- Sefydliad Bevan (2020) Coronavirus and fair work. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/07/Coronavirus-Fair-Work-Final.pdf> [Cyrchwyd: 21 Hydref 2020].
- <sup>ii</sup> Llywodraeth y DU (2020) Ethnicity facts and figures. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area><https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>iii</sup> Llywodraeth y DU (2020) Ethnicity facts and figures. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area><https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/work-pay-and-benefits/employment/employment/latest#by-ethnicity-and-area> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>iv</sup> Sefydliad Bevan (2020) Shared Ground: integrating migrants in Wales. [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/04/Shared-Ground-report.pdf> [Cyrchwyd: 21 Hydref 2020].
- <sup>v</sup> Coleman, L, Dali-Chaouch, M, Harding, C (2020) Childcare survey (2020). Coram Family and Childcare [Online] Ar gael ar: [https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Coram%20Childcare%20Survey%202020\\_240220.pdf](https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Coram%20Childcare%20Survey%202020_240220.pdf) [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>vi</sup> Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sydd ar gael mewn ardaloedd difreintiedig wedi'u targedu i gefnogi teuluoedd â phlant rhwng 0 a 3 oed. Mae'n darparu gofal plant rhan-amser am ddim i blant dwy i dair oed. Mae'n cyfateb i 2.5 awr am ddim y dydd am bum niwrnod yr wythnos, yn ystod y tymor.
- <sup>vii</sup> Dim ond 22 awdurdod lleol sydd gan Gymru, felly gall newidiadau mewn nifer fach o awdurdodau gael effaith fawr.
- <sup>viii</sup> Coleman, L and Cottell, J (2019) Childcare survey 2019. Coram Family and Childcare [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.familyandchildcaretrust.org/childcare-survey-2019> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>ix</sup> Sefydliad Joseph Rowntree (2020) UK Poverty 2019/20. York [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20> [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].
- <sup>x</sup> Sandher, J and Innes, D (2020) Storm ready – how to keep us afloat as unemployment hits. Sefydliad Joseph Rowntree. Efrog [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.jrf.org.uk/report/storm-ready-how-keep-us-afloat-unemployment-hits> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>ix</sup> Llywodraeth Cymru (2020) Prydau Ysgol am Ddim (PSM) yng Nghymru ar 20 Mai 2020. Data Cymru [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.data.cymru/covid19/prydau-ysgol-am-ddim.pdf> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020]. [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].
- <sup>x</sup> Sefydliad Bevan (2020) A Welsh Benefits System, how it can help solve poverty. Sefydliad Bevan [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/09/Welsh-Benefits-System-Final-Report-1.pdf> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>xi</sup> Llywodraeth Cymru (2016) Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 [Ar-lein] Ar gael ar: [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf) [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].
- <sup>xii</sup> Shelter Cymru (2020) Waste not, Want Not... making the most of discretionary housing payments. Shelter Cymru (2020) [Ar-lein] Ar gael ar: <https://sheltercymru.org.uk/waste-not-want-not-making-the-most-of-discretionary-housing-payments/> [Cyrchwyd: 9 Hydref 2020].
- <sup>xiii</sup> Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad I'r Wasg: Llywodraeth Cymru'n datgelu pecyn cymorth i gadw pobl yn eu cartrefi ac i roi diwedd ar ddigartrefedd [Ar-lein] Ar gael ar: <https://llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgelu-pecyn-cymorth-i-gadw-pobl-yn-eu-cartrefi-ac-i-roi-diwedd-ar> [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].
- <sup>xiv</sup> Sefydliad Bevan (2020) Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/10/Transforming-Wales-through-public-services-and-benefits-FINAL.pdf> [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].

---

<sup>xv</sup> Sefydliad Bevan (2020) A Welsh Benefits System, how it can help solve poverty [Ar-lein] Ar gael ar: <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/09/Welsh-Benefits-System-Final-Report-1.pdf> [Cyrchwyd: 26 Hydref 2020].

---

## Ynghylch Sefydliad Joseph Rowntree

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn sefydliad newid cymdeithasol annibynnol sy'n gweithio i ddatrys tlodi'r DU. Trwy ymchwil, polisi, cydweithredu ac atebion ymarferol, ceisiwn ysgogi camau gweithredu a newid a fydd yn creu DU ffyniannus heb dlodi.

Rydym yn gweithio gyda sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, a phobl sydd wedi cael profiad o fyw mewn tlodi, i adeiladu ar yr argymhellion yn ein strategaeth gynhwysfawr - [We can solve poverty in the UK](#) – a llacio gafeael tlodi ar bobl sy'n cael trafferth ymdopi'n ariannol. Mae'n cynnwys dadansoddiad ac argymhellion sydd wedi'u hanelu at bedair llywodraeth y DU.

Mae unrhyw waith ymchwil a gyhoeddir gan JRF, yn cynnwys y cyhoeddiadau yn y cyfeiriadau, ar gael i'w lawrlwytho o [www.jrf.org.uk](http://www.jrf.org.uk)

I gyfarfod un o'n harbenigwyr i drafod y pwyntiau a godwyd cysylltwch â:  
Peter Matejic: Dirprwy Gyfarwyddwr Tystiolaeth ac Effaith  
0798 921 0233